# Agenda - Y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol

Lleoliad:

**Fideo Gynadledda via Zoom**

Dyddiad: Dydd Mawrth, 14 Gorffennaf 2020

Amser: 09.00

I gael rhagor o wybodaeth cysylltwch a:

**Alun Davidson**

Clerc y Pwyllgor

0300 200 6565

SeneddMADY@senedd.cymru

**Yn unol â Rheol Sefydlog 34.19, mae'r Cadeirydd wedi penderfynu gwahardd y cyhoedd o gyfarfod y Pwyllgor er mwyn diogelu iechyd y cyhoedd.**

Caiff y cyfarfod hwn ei ddarlledu'n fyw ar senedd.tv.

**Cyfnod cofrestru**

(09.00-09.30)

## 1 Cyflwyniad, ymddiheuriadau, dirprwyon a datgan buddiannau

(09.30)

## 2 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

(09.30-10.30) (Tudalennau 1 - 60)

Jeremy Miles AS, y Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd

Piers Bisson - Llywodraeth Cymru

Robert Parry - Llywodraeth Cymru

## 3 Papur i'w nodi

(10.30-10.35)

**3.1 Papur i'w nodi 1: Gohebiaeth gan y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth at y Cadeirydd ynghylch Confensiwn Cyngor Ewrop ar Gydgynhyrchu Sinematig - 3 Gorffennaf 2020**

(Tudalennau 61 - 63)

Senedd Cymru
Welsh Parliament

**4 Cynnig o dan Reol Sefydlog 17.42(vi) a (ix) i benderfynu gwahardd y cyhoedd o weddill y cyfarfod**

(10.35)

**5 Sesiwn graffu gyda'r Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd - trafod y dystiolaeth**

(10.35-10.50)

**6 Rhaglen waith ddrafft ar gyfer tymor yr Hydref**

(10.50-11.00) (Tudalennau 64 - 73)

# Eitem 2

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Jeremy Miles AS/MS**
**Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd**
**Counsel General and Minister for European Transition**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Seneddeaal@senedd.wales

1 Gorffennaf 2020

Annwyl David,

Fel yr addewais yn fy llythyr dyddiedig 29 Mehefin ynglŷn â chloriannu’r negodiadau ar y berthynas rhwng y DU a'r UE yn y dyfodol, rwy'n ysgrifennu atoch i roi rhagor o fanylion am feysydd y Fframweithiau blaenoriaeth.

Y nod yw y bydd **pob** fframwaith, erbyn diwedd 2020, wedi llwyddo i gael o leiaf Gytundeb Amlinellol Fframwaith, a fydd wedi cael cadarnhad amodol gan weinidogion ac y gellir ei roi ar waith ar ffurf ddrafft. Byddai'r Cytundeb Amlinellol ar gyfer pob Fframwaith yn cynnwys, o leiaf: amserlen gyflawni, trefn lywodraethu glir ar draws y llywodraethau perthnasol (gan gynnwys sut y gellid rheoli gwahaniaethau), mecanwaith osgoi a datrys anghydfod, a datganiad o ddiben i gadarnhau ein hymrwymiad ar y cyd i ddatrys hyn yn gynnar. Bydd hyn yn sicrhau'r lefel isaf bosibl o ran gallu, tra'n cydnabod bod yn rhaid i'r Fframweithiau fynd drwy gyfnod craffu deddfwriaethol llawn, yn unol â mandad Cyd-bwyllgor y Gweinidogion, yn y Senedd ac yn y tair deddfwrfa arall.

O ystyried y cyfyngiadau o ran amser ac adnoddau swyddogion, mae'n bosibl na fydd rhai Fframweithiau yn gallu cwblhau Cytundeb Amlinellol safonol gofynnol mewn pryd. Lle bo hyn yn wir, bydd trefniant dros dro o fath arall yn cael ei sefydlu, os bydd angen, cyn diwedd y flwyddyn.

Gwneir pob ymdrech i gadw'r achosion hyn i'r lleiafswm, ac er mwyn sicrhau cynnydd yn y Fframweithiau pwysicaf mae'r pedair llywodraeth wedi datblygu cyd-ddealltwriaeth ynglŷn â’r Fframweithiau blaenoriaeth. Mae pwyntiau trafod yn y rhestr o hyd ond, yn fras, mae cytundeb y dylid ystyried y Fframweithiau canlynol yn Fframweithiau blaenoriaeth, ac mae bron y cyfan ohonynt o fewn portffolio'r amgylchedd, ynni a materion gwledig:

- System Masnachu Allyriadau
- Cymorth Amaethyddol
- Rheoli a Chefnogi Pysgodfeydd
- Iechyd a Lles Anifeiliaid
- Rheoleiddio Cemegion (gan gynnwys Plaladdwyr)
- Diogelwch a Hylendid Bwyd a Phorthiant

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
YPCCGB@llyw.cymru PSCGMET@gov.wales

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

- Iechyd Planhigion, Hadau a Deunyddiau Lluosogi
- Gwastraff ac Adnodddau
- Safonau Labelu a Chyfansoddiad Bwyd
- Maeth

Bydd y pedair Llywodraeth yn parhau i ddatblygu pob Fframwaith, a rhagwelir y byddant wedi'u cwblhau (gan gynnwys y craffu deddfwriaethol) yn ystod 2021. Byddaf, wrth gwrs, yn parhau i roi'r wybodaeth ddiweddaraf i'r Pwyllgor am hynt y gwaith.

Yn gywir,

**Jeremy Miles AS/MS**
Cwnsler Cyffredinol a'r Gweinidog Pontio Ewropeaidd
Counsel General and Minister for European Transition

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

Yn rhinwedd paragraff(au) vi o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon

**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
**Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth**
**Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism**

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

David Rees AS
Cadeirydd y Pwyllgor Materion Allanol a Deddfwriaeth Ychwanegol
Senedd Cymru
Bae Caerdydd
Caerdydd
CF99 1SN

03 Gorffennaf 2020

Annwyl David Rees AS,

Diolch ichi am eich llythyr dyddiedig 5 Mehefin at y Gweinidog Materion Rhyngwladol a'r Gymraeg, Eluned Morgan AS, ynghylch Confensiwn Cyngor Ewrop ar Gydgynhyrchu Sinematig. Rwy'n ateb eich llythyr gan fod y sector sgrin yn perthyn i'm portffolio i.

O ran eich cwestiynau penodol:

**Beth yw barn Llywodraeth Cymru am effaith y ffaith bod y DU wedi llofnodi Confensiwn 2017 ar ddiwydiannau sinematograffig Cymru?**

Mae Confensiwn Cyngor Ewrop ar Gydgynhyrchu Sinematig yn hen ddarn o ddeddfwriaeth sy'n caniatáu i bartïon cydgynyrchiadau elwa'n llawn ar fanteision cyllidol gwledydd eraill. Ar hyn o bryd, dim ond un cytundeb cydgynhyrchu sydd gan y DU yn Ewrop, sef yr un â Ffrainc, felly dibynnir ar y Confensiwn yn aml i sicrhau strwythur ariannol ar gyfer cydgynyrchiadau Ewropeaidd.

Cyn i'r DU ei lofnodi, mynegwyd pryderon o fewn y diwydiant y byddai'n colli allan ar fanteision y Confensiwn. Trwy lofnodi'r Confensiwn, dangosir awydd i barhau i gydweithio ar draws Ewrop a bod y diwydiant yn agored i fusnes gyda gwledydd Ewrop a thu hwnt.

Mae'r Confensiwn newydd wedi hwyluso'r telerau hefyd, gan gynnwys gostwng % y cyfraniad sydd ei angen oddi wrth yr is-bartner iddo fod yn gymwys. Y mae hefyd wedi estyn y cyfleoedd ar gyfer cydgynhyrchu, gan fod gwledydd o'r tu allan i Ewrop nawr am y tro

Bae Caerdydd • Cardiff Bay
Caerdydd • Cardiff
CF99 1SN

Canolfan Cyswllt Cyntaf / First Point of Contact Centre:
0300 0604400
Gohebiaeth.Dafydd.Elis-Thomas@llyw.cymru
Correspondence.Dafydd.Elis-Thomas@gov.wales

Rydym yn croesawu derbyn gohebiaeth yn Gymraeg. Byddwn yn ateb gohebiaeth a dderbynnir yn Gymraeg yn Gymraeg ac ni fydd gohebu yn Gymraeg yn arwain at oedi.

We welcome receiving correspondence in Welsh. Any correspondence received in Welsh will be answered in Welsh and corresponding in Welsh will not lead to a delay in responding.

cyntaf yn cael eu hystyried fel rhai cymwys, gan esgor ar ‘gydgynyrchiadau swyddogol’ yn hytrach na ‘chydgynyrchiadau Ewropeaidd swyddogol’.

Mae cydgynyrchiadau ffilm ag Ewrop yn elfen bwysig yn y byd cynhyrchu yn gyffredinol, yn enwedig yng Nghymru. Mae Ffilm Cymru wedi ariannu 18 ffilm hir fel cydgynyrchiadau â gwledydd sy’n aelod o Gyngor Ewrop. Dyna 25% o’r holl ffilmiau sydd wedi cael eu cynhyrchu gydag arian Ffilm Cymru. Ni fyddai’r ffilmiau hyn nag arian gwledydd Cyngor Ewrop wedi yn bosibl oni ba eu bod yn gymwys o dan Gonfensiwn Ewrop. Daeth arian oedd yn cyfateb i 75% o fuddsoddiad ariannol Ffilm Cymru o wledydd Cyngor Ewrop.

Yn ogystal â manteision ariannol y Confensiwn, daw manteision diwylliannol hefyd o gyflwyno cynnyrch diwylliannol o Gymru i’r byd a phortreadu sgiliau a lleoliadau’n gwlad. Mae enghreifftiau’n cynnwys ffilm y DU ar gyfer yr Oscar yn 2018, *I Am Not Witch*, sef ffilm gyntaf y cyfarwyddwr-awdur o dras Cymreig-Zambiaidd Rungano Nyoni, a enillodd Bafta iddo, a’r animeiddiad hir, *Ethel & Ernest*, cydgynhyrchiad â Lecsembwrg a’r DU gyda’r cwmni Cloth Cat o Gymru. Enwebwyd y ffilm fel y Ffilm Hir Animeiddiedig Orau yng Ngwobrau Ffilm Ewrop a chafodd ei gwerthu ledled y byd a denu dros 8 miliwn o wylwyr pan gafodd ei dangos am y tro cyntaf ar y BBC dros y Nadolig.

Mae manteision bod yn aelod o’r Confensiwn wedi parhau hyd yn oed dros gyfnod y COVID-19, ac mae Ffilm Cymru’n wrthi’n cefnogi ffilm hir animeiddiedig Ewropeaidd sy’n gallu parhau ar ei hynt diolch i’r ffaith bod y gwaith animeiddio’n gallu cael ei wneud o bell. Mae’r animeiddiad yn addasiad o *Heart of Darkness* gan y cyfarwyddwr-awdur o Gymru Gerard Conn a’i gwmni cynhyrchu, Gritty Realism. Mae’n gydgynhyrchiad rhwng y DU, Gwlad Belg ac Iwerddon a bydd, diolch i’r Confensiwn, yn gallu manteisio ar gymhellion ariannol y tair gwlad.

**I ba raddau y mae darpariaethau'r Confensiwn yn cyd-fynd â'r uchelgais y cyfeirir ati yn strategaeth ryngwladol Llywodraeth Cymru?**

Mae’r Strategaeth Ryngwladol yn cyfeirio at dair sector y mae Cymru’n enwog am ei harbenigedd ynddyn nhw. Y sectorau hyn yw lled-ddargludyddion cyfansawdd, seiber-ddiogelwch a’r diwydiannau creadigol. O ran y diwydiannau creadigol, mae Cymru’n neilltuol o adnabyddus am ei sgiliau ym maes ffilm a theledu pen ucha’r farchnad ac ar yr is-sector arbennig hon y mae Llywodraeth Cymru wedi canolbwyntio.

Wrth ddatblygu’r Strategaeth Ryngwladol, ymgynghorodd Llywodraeth Cymru’n eang gan ddefnyddio amrywiaeth o ddulliau. O ran sector y diwydiannau creadigol, gwnaethom gyfarfod â phartneriaid dibynadwy yn y diwydiant i sicrhau bod y cyfeiriad yr oedd y strategaeth yn ei ddatblygu yn un y gallen nhw ei gefnogi a’i ddeall o ran ei defnyddio i gefnogi’u gwaith. Ymhlith y partneriaid hynny yr oedd S4C, BBC, ITV, Ffilm Cymru a Sgil Cymru. Cafwyd ymateb hefyd gan sefydliadau uchel iawn eu bri, fel Sefydliad Ffilm Prydain. Mae’r strategaeth yn cydnabod pwysigrwydd gweithio gyda phartneriaid a chael eu cefnogaeth, i wireddu uchelgais ryngwladol ystyrlon. Mae’n cydnabod hefyd y pwysigrwydd y mae bod yn aelod o gyrff rhyngwladol a gweithio gyda nhw, fel Cine Regio, o ran cyflawni ein gwaith rhyngwladol yn y diwydiannau creadigol.

Mae’r penderfyniad i gynnwys y diwydiannau creadigol fel un o’r canolfannau rhagoriaeth yn y Strategaeth Ryngwladol yn diwallu mwy na’r agenda economaidd yn unig. Mae ffilm a rhaglenni teledu sy’n hyrwyddo’r Gymraeg a’n tirluniau yn helpu hefyd i gefnogi’r agenda twristiaeth a diwylliannol ehangach. Er nad yw’r Strategaeth Ryngwladol yn cyfeirio’n benodol (ac nid yw’r rhestr yn gyflawn) at Gonfensiwn Cyngor Ewrop ar Gydgynhyrchu Sinematig, mae’r strategaeth yn ategu’i nod o amddiffyn amrywiaeth ddiwylliannol gwledydd amrywiol Ewrop.


**A oedd Llywodraeth Cymru wedi cymryd rhan neu wedi cael ei hysbysu ymlaen llaw fod y DU yn bwriadu llofnodi’r Confensiwn?**

Nid ydym yn ymwybodol bod Llywodraeth Cymru wedi cael hysbysiad penodol bod y DU am lofnodi’r Confensiwn.

**Pa lefel o ymgysylltu, os o gwbl, sydd gan Lywodraeth Cymru â Sefydliad Ffilm Prydain, a fu, yn ôl Memorandwm Esboniadol Llywodraeth y DU, yn gyfrifol am negodi’r Confensiwn ar ran y DU gyfan?**

Mae Cymru Greadigol mewn cysylltiad rheolaidd â Sefydliad Ffilm Prydain ar lefel polisi a gweithredol.  Mae swyddogion o Gymru Greadigol yn aelodau o Dasglu newydd y Sector Ffilm ar COVID-19 ac yn cael cyfarfodydd rheolaidd i drafod materion eraill sy’n effeithio ar y Diwydiant Sgrin yng Nghymru.

Yn gywir,



**Yr Arglwydd Elis-Thomas AS/MS**
Y Dirprwy Weinidog Diwylliant, Chwaraeon a Thwristiaeth
Deputy Minister for Culture, Sport and Tourism

# Eitem 6

Yn rhinwedd paragraff(au) ix o Reol Sefydlog 17.42

Mae cyfyngiadau ar y ddogfen hon